



Cyfarfod Blynyddol
Cymdeithas Grefyddol y
Cyfeillion ym Mhrydain

Crynwyr a'u Hymwneud â Chrefyddau eraill

Crynwyr mewn cymdeithas aml-grefyddol

Fel Crynwyr sy'n byw ym Mhrydain aml-grefyddol, daw'n fwyfwy pwysig inni ddeall crefyddau eraill. Gellir gweld hyn fel rhan o'n gwaith dros heddwch a chyfiawnder yn ogystal ag fel modd o ddyfnhau ein bywyd ysbrydol ein hunain. Gellir ei wneud trwy astudio, trwy ymddiddan, myfyrio, addoli a thrwy gymdeithasu â phobl o grefyddau eraill, yn ogystal â thrwy weithio ochr yn ochr â hwy mewn ymgyrchoedd neu brosiectau cymdeithasol.

Mae modd camddefnyddio neu danseilio ymwneud â chrefyddau eraill, ac weithiau mae angen bod yn bwylllog, ond gall y fath ymwneud fod yn werthfawr iawn.

Ychydig o hanes

Bu'r Crynwyr cynnar yn ymwneud â phobl o grefyddau eraill. Dyfynnodd George Fox o'r Cwrân wrth ysgrifennu at Frenin Algiers ynghylch cyflwr Crynwyr a chaethion eraill. Ymwelodd Mary Fisher â Thwrci yn yr ail ganrif ar bymtheg er mwyn siarad â'r Swltan Mwhamad. Meddai:

“Maent yn nes at y Gwirionedd na sawl cenedl; mae cariad wedi'i genhedlu ynof tuag atynt sydd yn ddi-ben-draw ...”

Dangosai John Woolman ymateb tebyg i Americanwyr Brodorol, a ddifriwyd fel paganiaid gan ei gyfoeswyr.

Mae Cyfeillion wedi parhau i gynnal y traddodiad hwn ers blynyddoedd.

Gwerth ymwneud Crynwyr â chrefyddau eraill

Yn y blynyddoedd diwethaf cynyddodd yr angen i ymwneud â chrefyddau eraill yn fwyfwy. Mae hanes diweddar ac ymdriniaeth ddideimlad y cyfryngau wedi taflu golau annymunol ar grwpiau o bobl â gwahanol grefyddau, yn enwedig Moslemiaid, gan wneud iddynt deimlo ar eu pennau eu hunain, dan fygythiad ac yn ofnus. Efallai y gall Crynwyr, a gâi eu herlid eu hunain ar un adeg, ac a ystyrir yn fygythiad i'r wladwriaeth, chwarae rhan werthfawr trwy gefnogi'r fath grwpiau a thrwy dystiolaethu i'w hawl i gynnal eu crefydd fel rhan o'n cymdeithas amlddiwylliannol. Dylai pawb ddysgu am y cydadwaith cymhleth rhwng crefydd, diwylliant a hil. Gellir dangos hyn, er enghraifft mewn pethau megis gwisg, ymborth ac ymddygiad.

Os oes sail gref i'n ffydd a'n hymarfer ein hunain fel Crynwyr, y tebyg yw y cânt eu

cryfhau, yn hytrach na'u siglo, gan ein hymwneud â chrefyddwyr eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n mynd ati o ddifrif i gyd-drafod â phobl o grefyddau eraill yn sylwi ar nifer helaeth y nodweddion tebyg rhwng y crefyddau mawrion; nid y lleiaf ohonynt yw'r ffaith bod amrywiaeth fawr y tu mewn i bob un o'r crefyddau hyn. Mae'n fuddiol treulio amser yn archwilio'r nodweddion tebyg hyn, er mwyn chwalu rhagfarnau a magu ymddiriedaeth. Er hyn, mae gwahaniaethau gwirioneddol rhwng crefyddau mawrion y byd, ac mae rhaid cydnabod y rhain. Er enghraifft, mae'r syniad o ailymgnawdoliad yn rhan annatod o draddodiadau rhai crefyddau, ac yn hollol absennol o rai eraill. Wrth i'r ymwneud â chrefyddau eraill ddatblygu, fe ddaw modd cydnabod y gwahaniaethau hyn, ac wedyn codi uwchlaw y rhai hynny.

Mae gwahanol fathau o ymwneud â phobl o grefyddau eraill:

- ymwneud yn ein bywydau, lle mae pobl o wahanol grefyddau,
- trwy gyfarfod mewn cyfeillgarwch, yn cyfoethogi ei gilydd wrth fyw yn ôl gwerthoedd eu priod grefydd;
- ymwneud trwy gyd-weithio ar faterion cymdeithasol, gydag ymrwymiad cyffredin i heddwch, cydraddoldeb a chyfiawnder;
- ymwneud deallusol, lle mae diwinyddion ac ysgolheigion crefyddol yn ceisio dealltwriaeth eglurach o'r gwirioneddau wrth wraidd eu traddodiadau;
- ymwneud trwy brofiad crefyddol; gan ddibynnu ar fewnwelediadau o weddi a myfyrdod yn y crefyddau gwahanol;
- ac, wrth arfer doethineb, trwy rannu ein brwydrau personol, y dadleuon y tu mewn i'n crefyddau, a dulliau ein traddodiadau o gadw'r traddodiadau hynny'n fyw ac yn egniol, er enghraifft trwy ddangos perthnasedd hen ddysgeidiaethau i broblemau heddiw.

Yr hyn y gallwch chi ei wneud

Dod yn fwy gwybodus. Mae digon o ffynonellau gwybodaeth ynghylch credoau ac arferion sylfaenol crefyddau eraill, ar glawr neu ar wefannau priodol. Nodir rhai ohonynt yn yr adran adnoddau ar ddiwedd y daflen hon. Gellir defnyddio ysgrifeniadau o draddodiadau crefyddau eraill wrth astudio'n breifat, mewn grwpiau trafod ac mewn gwaith gyda phlant a Chyfarfod Addoli. Er hynny, wrth ddefnyddio'r fath ddeunydd mewn dull 'dewis a dethol', mae'n bosibl na fyddwn yn ei ddeall a'i ddehongli yn yr un modd ag y byddai rhywun o'r traddodiad hwnnw.

Fesul un, neu mewn grŵp bach, dechrau ymwneud â phobl o grefyddau eraill trwy drefnu, er enghraifft:

- ymuno â grŵp o bobl o wahanol grefyddau, neu achub y blaen wrth gychwyn un;
- cefnogi neu gychwyn mentrau ar gyfer digwyddiadau a phobl o grefyddau eraill, megis Wythnos o Weddi dros Heddwch y Byd neu Wythnos Un Byd.
- bod yn agored ac yn barod i gymryd rhan mewn gwyliau crefyddol pan ddaw cyfle;
- gwneud ymdrech arbennig i estyn allan i bobl yn yr ardal o unrhyw grefydd sy'n dioddef cyhoeddusrwydd anffafriol, sy'n cael eu brawychu neu eu camdrin oherwydd eu crefydd.

Yn aml iawn, bydd cyfeillgarwch personol yn arwain at chwalu gwahanfuriau, a gall agor llwybrau at gymunedau o bobl o grefyddau eraill/o ddilynwyr crefyddau eraill. Cofiwch, er hynny, na fydd pobl o grefyddau eraill, o bosibl, yn gwybod llawer am y Crynwyr, a gallent fod yn amheus ohonom.

Adnoddau

- Understanding Islam*, by C Hewer. London, SCM Press, 2006
- Islam, the straight path*, by J Esposito. Oxford University Press, 3rd edn, 2005
- The vision of Islam*, by S Murata & W Chittick. I B Tauris Press, 1996
- An Introduction to Shi'i Islam*, by M Momen. Cambridge, Mass, Yale University Press, 1985
- Western Muslims and the Future of Islam*, by T Ramadan. Oxford University Press, 2004
- Introducing Hinduism*, by H Rodrigues. London, Routledge, 2006
- Introduction to Hinduism*, by G Flood. Cambridge University Press, 1996
- Buddhism, A Very Short Introduction*, by D Keown. Oxford University Press, 2000
- Buddhist Ethics, A Very Short Introduction*, by D Keown. Oxford University Press, 2005
- A concise history of Buddhism*, by A Skilton. Birmingham, Windhorse Publications, 1997
- Exploring Sikhism*, by H McLeod. Oxford University Press, 2000
- Sikhism, A Very Short Introduction*, by E Nesbitt. Oxford University Press, 2005
- The Jews: their religious beliefs and practices*, by A Unterman. Sussex Academic Press, 2nd edn, 1999
- Judaism*, by D Cohn-Sherbok. London, Routledge, 1999
- Christianity: A Very Short Introduction*, by L Woodhead. Oxford University Press, 2004
- Dimensions of the Sacred: An Anatomy of the World's Beliefs*, by N Smart. London, Fontana, 1997
- The World's Religions*, by N Smart. Cambridge University Press, 1998

Cyrff rhyng-grefyddol

- Inter Faith Network for the UK (www.interfaith.org.uk —mae ganddi restr aelodaeth gynhwysfawr)
- World Congress of Faiths (www.worldfaiths.org)
- Churches' Commission of Inter Faith Relations (www.ctbi.org.uk/ccifr)
- Scottish Inter-Faith Council (www.interfaithscotland.org)
- Cyngor Rhyng-Ffydd Cymru (www.interfaithwales.org)
- London Inter Faith Centre (www.londoninterfaith.org.uk)
- Council of Christians and Jews (ccj.org.uk)
- British Muslim Forum (www.com)

Taflen gan Bwyllgor y Crynwyr dros Gysylltiadau â Christnogion a Chrefyddau Eraill/Quaker Committee for Christian and Interfaith Relations (QCCIR). Gall y QCCIR roi cyngor a chefnogaeth i Grynwyr a Chyfarfodydd sy'n dymuno ehangu a dyfnhau eu hymwneud ag eglwysi a chrefyddau eraill.

Cysylltwch â : QCCIR c/o Friends House, 173 Euston Road, London NW1 2BJ. E-bost: marigoldb@quaker.org.uk Ffôn: 020 7663 1060